**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 18-00(p1)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2000 |
| Amser: | 9.00am - 12.30pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG

## ARIANNU TIR GOFAL 2001-02 I 2003-04

1. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunais y byddwn yn egluro’r gyllideb

fydd ar gael ar gyfer Tir Gofal dros y tair blynedd nesaf. Mae’r cytundeb partneriaeth, *Rhoi Cymru’n Gyntaf*, yn nodi’n glir iawn y "b*yddwn yn cynyddu’r buddsoddiad cyfredol yn y cynllun Tir Gofal dros y tair blynedd nesaf i gyfanswm cronnol o bron £40m". Mewn gwirionedd, byddwn yn gwneud yn well na hynny hyd yn oed – mae’r gyllideb ddrafft yn nodi ein bod yn bwriadu gwario £10.9 miliwn yn y flwyddyn gyntaf, £13.9 miliwn yn yr ail flwyddyn a £16.9 miliwn yn y drydedd flwyddyn, gan roi cyfanswm cronnol o £41.7 miliwn dros y tair blynedd. Rwy’n derbyn bod cyfeiriad Rhoi Cymru’n Gyntaf at fuddsoddi mwy na £10miliwn y flwyddyn yn "ychwanegol" yn amwys ond, yn fy marn i, mae’n glir bod y datganiad hwn yn cyfeirio’n ôl at y buddsoddiad ychwanegol o £40 miliwn dros y tair blynedd – mae hyn yn amlwg yn fwy na £10 miliwn y flwyddyn.*

## *CYMORTH I LADD-DAI BACH*

*2. Mae Cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys arian i leihau costau archwilio lladd-dai bach Cymru. Rydym wedi bod yn rhoi pwysau ar lywodraeth y DU ar y mater hwn am nifer o fisoedd ac rwy’n croesawu ei chyhoeddiad ar 28 Tachwedd y bydd yn rhoi argymhellion Adroddiad McLean ar waith. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd bellach yn trefnu manylion y cynllun cymorth. Mae mwyafrif lladd-dai Cymru yn dod o fewn diffiniad McLean o sefydliad bach neu ganolig.*

## *COEDWIGAETH*

*3. Ar 1 Tachwedd, fe lansiais y fenter Gweithio gyda Chymunedau newydd ar gyfer Menter Coedwigaeth, yr asiantaeth o fewn y Comisiwn Coedwigaeth sy’n rheoli daliadau coedwigaeth y Cynulliad. Mae’r fenter polisi hon yn egluro sut y byddwn yn annog pobl ledled Cymru i chwarae eu rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch coetiroedd yn eu cymdogaethau. Bydd y fenter hon yn rhan annatod o’r ffordd newydd o edrych ar goetiroedd, ac rwy’n gobeithio y bydd yn cael ei datblygu drwy broses y Strategaeth Coetiroedd y bydd y Pwyllgor yn ei thrafod ar 6 Rhagfyr.*

*4. Mae cynnig cyfleoedd hamddena yng nghoetiroedd Cymru hefyd yn cynnig cysylltiad hanfodol â phobl ac yn helpu i ddatblygu'r economi wledig. Ni fyddai'r Rali Network Q wedi dod i Gymru yn ddiweddar pe na byddent wedi cael defnyddio'r ffyrdd sy'n mynd drwy goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rali yn dod â chyhoeddusrwydd enfawr i Gymru ac mae o fudd mawr i'n heconomi. Bu ymrwymiad y Comisiwn Coedwigaeth i gydweithio â'r trefnwyr o gymorth mawr i wneud y rali yn un mor llwyddiannus ac roedd yn ffactor allweddol yn eu penderfyniad i gynnal y rali yng Nghaerdydd dros y ddwy flynedd nesaf.*

***CLYBIAU FFERMWYR IFANC***

*5, Ar 22 Rhagfyr, cyfarfum â chynrychiolwyr o Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru er mwyn trafod materion oedd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Mae gan y Clybiau Ffermwyr Ifanc ran bwysig i'w chwarae yn y broses o lywio cyfeiriad amaethyddiaeth yng Nghymru i'r dyfodol ac, fel yn achos y prif fudiadau amaethyddol eraill, rwyf yn awyddus i gynnal trafodaethau rheolaidd â hwy.*

***SEFYDLIAD ASTUDIAETHAU GWLEDIG CYMRU***

*6. Ar 24 Tachwedd, ymwelais â'r Sefydliad Materion Gwledig ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, ble y cwrddais â'r Athro Derec Llwyd Morgan, yr Is-ganghellor, yr Athro Will Haresign, Cyfarwyddwr y Sefydliad ac aelodau blaenllaw eraill o'r staff.*

***SIOE FRENHINOL SMITHFIELD***

*7. Ar 29 Tachwedd, ymwelais â Sioe Frenhinol Smithfield yn Earl's Court, Llundain, a rhoddais anerchiad i fforwm ffermwyr yn y Sioe.*

***YMWELIAD Â FFERM, RHAGLAN***

*8. Ar 30 Tachwedd, ymwelais â fferm T Du yn Rhaglan, sir Fynwy. Trefnwyd y cyfarfod gan Undeb Amaethwyr Cymru ac roedd yn cynnwys cyfarfod gyda ffermwyr lleol er mwyn trafod nifer o byncíau llosg.*

***CINIO DA BYW BLYNYDDOL NFU CYMRU***

*9. Ar nos Fawrth, 4 Rhagfyr, byddaf yn mynychu'r cinio da byw blynyddol a drefnir gan NFU Cymru Wales yn y Bell Inn, Llanllr. Y diwydiant da byw yw asgwrn cefn amaethyddiaeth yng Nghymru ac rwy'n hapus i fanteisio ar bob gyfle i'w gefnogi.*

***FFAIR AEAF Y SIOE FRENHINOL***

*10. Ar 5 Rhagfyr, byddaf yn mynychu'r Ffair Aeaf flynyddol a drefnir gan Gymdeithas Amaethyddol*

*Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Rwy'n bwriadu cwrdd ag aelodau blaenllaw'r diwydiant; ymweld â'r neuadd fwyd; cyflwyno gwobrau Caws y flwyddyn; a lansio Cwysi – Menter a Busnes – fideo i hyrwyddo menter ymysg teuluoedd sy'n ffermio.*